

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	6 Chwefror 2020
TEITL YR ADRODDIAD:	Ethol Is-gadeirydd
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Cynghori'r Pwyllgor ynghylch y Drefn ar gyfer Ethol Is-gadeirydd.
ADRODDIAD GAN:	Mared Wyn Yaxley Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol mwycs@anglesey.gov.uk
SWYDDOG CYSWLLT:	Lynn Ball Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro lbxcs@anglesey.gov.uk 01248 752586

1. Cyflwyniad

- 1.1 Roedd tymor cyntaf pedwar aelod annibynnol newydd y Pwyllgor Safonau yn cychwyn ar 20 Rhagfyr 2019.
- 1.2 Daeth ail dymor, a thymor olaf, yr Is-gadeirydd blaenorol i ben ar 19 Rhagfyr 2019.
- 1.3 Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau ethol Is-gadeirydd.

2. Cefndir Deddfwriaethol

- 2.1 Yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001, fel y'u diwygiwyd, rhaid i aelodau Pwyllgor Safonau ethol Is-gadeirydd o blith Aelodau Annibynnol y Pwyllgor (Rheoliad 22 (1)).
- 2.2 Bydd yr Is-gadeirydd yn cael ei ethol am ba un bynnag yw'r byrraf o'r cyfnodau canlynol:
 - (a) Tymor heb fod yn llai na phedair blynedd nac yn fwy na chwe blynedd neu
 - (b) Tan fydd tymor swydd y person hwnnw fel aelod annibynnol o'r pwyllgor safonau yn dod i ben. (Rheoliad 22 (7))
[Oni bai, wrth gwrs, bod yr Is-gadeirydd yn ymddiswyddo yn gynharach]
[Yn ogystal, mae darpariaethau ar wahân ar gyfer achosion pan fydd lle gwag yn codi.]

3. Cefndir Cyfansoddiadol

- 3.1 Nid yw'r cyfansoddiad yn cyfeirio at dymor yr Is-gadeirydd. Byddai'n rhesymol ystyried dilyn yr un ddarpariaeth ag ar gyfer ethol Cadeirydd h.y. 'Bydd y cadeirydd yn cael ei ethol gan aelodau'r Pwyllgor Safonau am gyfnod na fydd yn hwy na phedair blynedd neu am y cyfnod hwnnw y bydd yr unigolyn yn dal i fod yn aelod o'r Pwyllgor, pa gyfnod bynnag sydd fyrraf o'r ddau ond bydd yn gymwys i gael ei ail-ethol fel Cadeirydd.'

4. Ethol Is-gadeirydd

- 4.1 Felly, ar sail yr uchod, rhaid i'r Pwyllgor Safonau ethol Is-gadeirydd o blith yr aelodau canlynol:

Rhys Davies, Celyn Edwards, John Jones, Gill Murgatroyd, a Sharon Warnes.

er, yn amlwg, nid y person a gafodd ei ethol yn Gadeirydd yn unol â phenderfyniad blaenorol y Pwyllgor hwn ar eitem 4 ar y Rhaglen.

- 4.2 Bydd yr Is-gadeirydd yn cael ei ethol am gyfnod o **bedair blynedd** a bydd yn gymwys i gael ei ail-ethol.
- 4.3 Mae gan bob ymgeisydd hawl i bleidleisio drosto ef / drosti hi ei hun.
- 4.4 Bydd gan y Cadeirydd newydd a benodwyd hawl i ddefnyddio ei bleidlais fwrw os bydd angen.

5. Gwybodaeth am yr Ymgeiswyr

- 5.1 Mae bywgraffiadau'r pum aelod annibynnol wedi'u cynnwys fel atodiadau i'r adroddiad hwn.

Rhys Davies –	Atodiad 1
Celyn Edwards –	Atodiad 2
John Jones –	Atodiad 3
Gill Murgatroyd –	Atodiad 4
Sharon Warnes –	Atodiad 5

- 5.2 Rhaid dewis yr Is-gadeirydd o blith y pum enw uchod, ac eithrio'r unigolyn a gafodd ei ethol yn Gadeirydd.
- 5.3 Nid oes Manyleb Rôl benodol ar gyfer yr Is-gadeirydd. Rôl yr Is-gadeirydd yw cefnogi'r Cadeirydd yn ei rôl ef/hi ac i ymgymryd â rôl y Cadeirydd yn ôl yr angen. Ar y sail honno, mae Disgrifiad Rôl y Cadeirydd wedi'i gynnwys fel **Atodiad 6** i'r adroddiad hwn.

6. Argymhelliad

- 6.1 Bod y Pwyllgor Safonau'n ethol Is-gadeirydd o blith ei aelodau annibynnol am dymor o bedair blynedd (a bydd yn gymwys i gael ei ail-ethol)

Rhys Davies

Yn enedigol o Fôn, aeth Rhys i astudio deintyddiaeth yng Nghaerdydd ar ôl bod yn ddisgybl yn Ysgol David Hughes.

Mae bellach wedi ymddeol ers 5 mlynedd ac mae'n parhau i fyw ar yr ynys.

Yn ddiweddar, bu Rhys yn aelod o Gyngor Cynulleidfa'r BBC (Cymru), yn Ymddiriedolwr dros Canolfan Lôn Abaty Bangor ac yn Gadeirydd y Gymdeithas Ddeintyddol.

Mae ar hyn o bryd yn ynad ar fainc Ynys Môn/Gwynedd, yn eistedd yng Nghaernarfon bellach ers cau y Llys yng Nghaergybi.

Mae hefyd wedi'i dderbyn fel aelod annibynnol o'r Cyngor Iechyd Cymunedol Lleol yn ddiweddar.

Rhys Davies

A native of Anglesey, Rhys went from David Hughes School to study dentistry in Cardiff. For most of his career he worked as a General Dental practitioner in Llangefni. He Retired 5 years ago and continues to live on the island.

Over the last few years Rhys has been a member of the BBC Audience Council for Wales, a Trustee at the Abbey Road Centre in Bangor and Chair of Y Gymdeithas Ddeintyddol.

He is currently a serving magistrate on the Anglesey/Gwynedd Bench, transferring to sit mostly in Caernarfon following the closure of the Holyhead courtrooms.

He is also an independent member the local Community Health Council, starting the role in late 2019.

Celyn Menai Edwards

Yn ferch leol i'r Ynys, hyfforddodd Celyn fel bargyfreithiwr ar ôl cwblhau ei gradd Baglor ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth a gradd Meistr ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae hi'n eiriolwr brwd dros hawliau democrataidd dinasyddion Cymru, ac mae hi wedi treulio 8 mlynedd yn gweithio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Yno, mae Celyn yn chwarae rhan annatod yn cynnwys pobl Cymru yng ngwaith y Cynulliad wrth ddarparu a chefnogi cyfleoedd i gymunedau ddylanwadu ar fusnes y Cynulliad, cyfrannu at waith Aelodau'r Cynulliad a rhannu gwybodaeth am ein pwerau datganoledig . Mae'r rôl wedi galluogi Celyn i gynghori Aelodau etholedig ar y ffordd orau o gynnwys dinasyddion yn eu gwaith a dwyn y cyfleoedd hynny i fodolaeth, yn ogystal â rhannu arfer gorau ar draws gweinyddiaethau datganoledig y DU a thu hwnt.

Dychwelodd Celyn i Fôn yn 2017 gyda'i gŵr a'i dau blentyn ifanc.

Celyn Menai Edwards

Celyn is a local girl from Anglesey who studied as a barrister after completing her Bachelors Degree at the University of Wales, Aberystwyth and Masters Degree at Cardiff University.

She is a strong advocate for the democratic rights of the citizens of Wales and has spent 8 years working at the National Assembly for Wales. During her time there, Celyn has played an integral part in including the people of Wales in the work of the Assembly by providing and supporting opportunities for communities to influence Assembly business, to contribute to the work of Assembly Members and to share information regarding our devolved powers. The role has enabled Celyn to advise elected Members on the best way of including citizens in their work and to bring those opportunities into existence as well as sharing best practices across the devolved administration of the UK and beyond.

Celyn returned to Anglesey in 2017 with her husband and two young children.

John R Jones

Cefais y fraint o fod yn Brif Swyddog Medrwn Môn, sef y Cyngor Gwirfoddol Sirol sydd yn hybu a chefnogi gweithgaredd gwirfoddol a chymuned ar Ynys Môn am nifer o flynyddoedd hyd at fy ymddeoliad yn 2016. Felly mae fy mhrofiad gwaith yn y sector wirfoddol ac mewn swyddi rheoliaethoddol. Rhan o fy ngwaith oedd datblygu perthynas adeiladol gyda chyrff statudol felly mae gennyf brofiad helaeth o weithio gydag awdurdodau cyhoeddus drwy fod yn rhan o bwyllgorau, gweithgorau ayyb. Cefais y fraint o weithredu fel cynghorydd cymuned am nifer o flynyddoedd ac rwyf yn llywodraethwr ar ysgol uwchradd.

Yr wyf yn frodor o Ynys Môn ac wedi ei fagu, ei addysgu ac wedi gweithio yma rhan fwyaf o'm hoes ond cefais brofiad o dderbyn addysg bellach ac o weithio tu hwnt i'r Afon Fenai am gyfnod. Rwyf yn briod, yn dad i dri o blant ac yn daid i ddau.

Fy niddordebau yw teulu, fy nghymuned, golf, rygbi, beicio a cherdded.

John R Jones

I had the privilege of being Chief Officer at Medrwn Môn which is the County Voluntary Council which promotes and supports voluntary activities and communities on Anglesey, up to my retirement in 2016. My work experience is therefore in the voluntary sector and in management posts. Part of my work included developing a constructive relationship with statutory bodies so I have vast experience of working with public bodies and being part of committees, working groups etc. I had the privilege of working as a community councillor for a number of years and I am a school governor of a secondary school.

I am from Anglesey and was raised and educated here and have worked here for most of my life but have also had experience of further education and working the other side of the Menai for a period. I am married, a father to two children and a grandfather to two.

My interests include family, my community, golf, rugby, cycling and walking.

Gill Murgatroyd

Mae Gill yn Gymrawd Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad a chanddi dros 15 mlynedd o brofiad fel Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol yn y maes Tai Cymdeithasol. Gweithiodd yn y gorffennol hefyd mewn rolau AD uwch yn y sector cyhoeddus a'r sector breifat gan gynnwys ym meysydd Gwasanaethau Ariannol, y Maes Modurol, Ynni/Cyfleustodau, Adwerthu ac Amddiffyn.

Mae Gill bellach yn Gyfarwyddwr ar ei busnes AD a Datblygu Sefydliadau ei hun yng Ngogledd Cymru. Mae hi'n aelod o Bwyllgor Safonau Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac yn aelod o Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ar gyfer Athrawon ac yn y gorffennol bu'n gyfarwyddwr anweithredol ar gyfer dau sefydliad elusennol lleol.

Mae gan Gill brofiad helaeth o weithio mewn amgylcheddau rheoledig a bu'n ymwneud yn sylweddol â llywodraethiant, rheoleiddio, cwynion a phanelau camymddygiad, codau ymddygiad rheolaeth risg, polisi a pherfformiad, ymgysylltiad â chwsmeriaid, marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus.

Mae Gill yn byw yn Llandudno ac yn ei hamser hamdden mae'n mwynhau cerdded yn y mynyddoedd ac o amgylch arfordir gogledd Cymru.

Gill Murgatroyd

Gill is a Fellow of the Chartered Institute of Personnel & Development, with over 15 years' experience as an Executive Director of Human Resources in Social Housing. She has also previously worked in senior HR roles in both the public and private sectors, including Financial Services, Automotive, Energy/Utilities, Retail and Defence.

Gill is now the Director of her own HR and Organisation Development consultancy business in North Wales. She is a member of the Standards Committee for the North Wales Fire & Rescue Authority as well as a member of the Independent Welsh Pay Review Body for Teachers, having previously been a non-executive director for two local charitable organisations.

Gill has extensive experience of working in highly regulated environments with significant involvement in governance, regulation, complaints and misconduct panels, codes of conduct, risk management, policy and performance, customer engagement, marketing and PR.

Gill lives in Llandudno, and in her spare time enjoys walking in the mountains and around the coast of North Wales.

Sharon Warnes

Cychwynnodd ei gyrfa fel athrawes uwchradd ac yna gweithiodd ym maes Addysg Bellach, cyn gweithio am dros 30 mlynedd o fewn llywodraeth leol.

Roedd yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol hyfforddiant, datblygu rheolwyr ac adnoddau dynol ac yna'n Uwch Reolwr Strategol Polisi a Pherfformiad - yn cynnal prosiectau strategol ac ymchwiliadau.

Yn fwy diweddar, bu'n aelod o Fwrdd Ymgynghorol yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus, yn Is Gadeirydd ar Asiantaeth Tai ac yn aelod llewyg ar Bwyllgor Archwilio Cyngor Ynys Môn.

Ar hyn o bryd, mae'n aelod llewyg o Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd ac yn Gadeirydd Pwyllgor Safonau Parc Cenedlaethol Eryri.

Sharon Warnes

She began her career as a secondary school teacher and then worked in further education before working for over 30 years in local government.

She was an Assistant Director for training, management development and human resources and a Senior Strategic Policy and Performance Manager- conducting strategic projects and investigations.

More recently she has been a member of the Public Service Ombudsman's Advisory Board, the Vice Chair of a Housing Association and a lay member of Anglesey's Audit Committee.

Presently she is a lay member of Gwynedd Council's Audit Committee and Chair of Snowdonia National Park's Standards Committee.

Disgrifiad o Swyddogaeth Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

1 Atebolrwydd

- I etholwyr Ynys Môn
- I'r Cyngor Llawn

2 Cyfrifoldebau Statudol

- Gweithredu o fewn gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i gynnal trosolwg o swyddogaethau'r Pwyllgor yn deg ac yn gywir;
- Sicrhau bod y Pwyllgor yn drwyadl ac yn wrthrychol, gan dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol ar y Côd Ymddygiad;
- Arddangos annibyniaeth, cywirdeb a didueddrwydd wrth wneud penderfyniadau sy'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi;
- Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol er mwyn hyrwyddo cynhwysiad, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir;
- **Arwain y Pwyllgor yn ei rôl i;**
 - Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig;
 - Cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i lynu wrth y Côd Ymddygiad i Aelodau;
 - Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Côd Ymddygiad i Aelodau;
 - Monitro gweithrediad y Côd Ymddygiad i Aelodau;
 - Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Côd Ymddygiad i Aelodau;
 - Ystyried ceisiadau am ganiatâd arbennig;
 - Rhoi sylw i unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos, neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd i'r Swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
 - Cyflawni'r swyddogaethau hyn mewn perthynas â Chynghorau Cymuned ac Aelodau'r Cynghorau Cymuned hynny.

3 Cyfrifoldebau Ychwanegol

- Cynnal archwiliadau rheolaidd, fel y bydd y Pwyllgor Safonau yn ystyried yn briodol, o gofrestrau o ddiddordebau Cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig,
- Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio Protocol y Cyngor ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion;
- Cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i lynu wrth BroTOCOL y Cyngor ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion;
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â Phrotocol y Cyngor ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion;

- Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio Protocol Datrysiaid Lleol y Cyngor;
- Cynorthwyo a chefnogi Arweinyddion Grwpiau a Chadeiryddion i lynu wrth a gweithredu Protocol Datrysiaid Lleol y Cyngor;
- Fel sy'n briodol, cynnal a monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd yr Adolygiadau Perfformiad Aelod a Chynlluniau Datblygu, i'r graddau y maent yn berthnasol i aelodau'r Pwyllgor Safonau.

4 **Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chydberthnasau**

- Sicrhau uniondeb proses gwneud penderfyniadau'r pwyllgor a'i rôl ef/hi ei hun drwy lynu wrth y Côd(au) Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill;
- Sicrhau bod penderfyniadau'r Pwyllgor yn cael eu gweithredu;
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da gan y Cyngor;
- Deall beth yw swyddogaethau penodol Cynghorwyr, Swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau.

5 **Gwerthoedd**

- Ymrwymo'n llwyr i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd a ganlyn mewn swydd gyhoeddus:
 1. Anhunanoldeb
 2. Gonestrwydd
 3. Unplygrwydd ac Uniondeb
 4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith
 5. Stiwardiaeth
 6. Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
 7. Cydraddoldeb a Pharch
 8. Bod yn agored
 9. Atebolrwydd
 10. Arweinyddiaeth
 11. Gwerthfawrogiad o wahaniaethau diwylliannol
 12. Llesiant a chynaliadwyedd cenedlaethau'r dyfodol

Enw Llawn: _____

Llofnod: _____

Dyddiad: _____